Rhif: WG41789

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

Rheoliadau sy'n pennu'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a materion cysylltiedig

Mawrth 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-876-6

## Crynodeb o’r ymatebion

### 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y dull polisi ar gyfer sefydlu Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Strategol (‘Rheoliadau CDSau’) rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021.

1.2 Enw ffurfiol Rheoliadau CDSau fydd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, a byddant yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi CDSau ledled Cymru gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CCau). Y pwyllgorau hyn fydd yn llwyr gyfrifol am baratoi, monitro ac adolygu CDSau ar draws pedwar rhanbarth Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft i sefydlu’r CCau hyn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, gan fod y ddau ymgynghoriad yn ategu ei gilydd, gydag un yn ymwneud â llywodraethu a gweithredu CCau a'r llall â’r gweithdrefnau ar gyfer paratoi CDSau.

1.3 Y bwriad polisi mewn perthynas ag CDSau yw cyflwyno dull mwy strategol o gynllunio ar raddfa sy'n fwy na Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) unigol. Drwy wella'r ffordd mae'r system gynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, gan adlewyrchu sut mae pobl yn byw eu bywydau heddiw ac yn y dyfodol, bydd CDSau yn darparu dull mwy effeithlon o gynllunio, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith yn unig ar y lefel ranbarthol. Bydd y penderfyniadau allweddol hyn ynghylch materion mwy, nad ydynt yn faterion lleol, megis niferoedd tai, tai strategol a dyraniadau cyflogaeth, llwybrau seilwaith gwyrdd strategol a seilwaith ategol yn cael eu hystyried a'u cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr drwy CDSau.

1.4 Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y dull polisi ar gyfer sefydlu Rheoliadau CDSau, ac mae'n cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedi helpu i lywio a llunio’r fersiwn derfynol o Reoliadau CDSau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol.

### 2. Cyhoeddusrwydd

2.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn amlinellu’r cyd-destun ar gyfer paratoi Rheoliadau CDSau. Roedd y Llawlyfr hefyd yn cynnwys bwriad y Llywodraeth y byddai'r rheoliadau'n adlewyrchu’r broses ar gyfer CDLlau i raddau helaeth, ac yn nodi'r agweddau hynny nad oeddent yn debygol o fod yn berthnasol i CDSau. Roedd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

2.2 Roedd yr ymgynghoriad ar fwriad polisi Rheoliadau CDSau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol yr ymgynghoriad, sef 12 wythnos. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cronfa ddata o randdeiliaid allweddol y system gynllunio; hysbyswyd yr holl randdeiliaid am yr ymgynghoriad drwy e-bost ar 12 Hydref 2020. Roedd hyn yn cynnwys Penaethiaid Cynllunio a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, ymgyngoreion statudol a chyrff eraill â diddordeb.

### 3. Ymatebion i’r Ymgynghoriad

3.1 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys naw cwestiwn i ysgogi rhanddeiliad i ystyried Rheoliadau CDSau. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar fwriad polisi'r Rheoliadau a

chyfnodau allweddol yn y broses o baratoi CDSau, gyda gwahoddiad penagored i randdeiliaid wneud unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.1 Cafwyd cyfanswm o 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) oedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr, gydag 17 ACLlau yn ymateb, wedi'u dilyn gan asiantaethau'r llywodraeth a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gydag 14 o ymatebwyr, yn bennaf Cynghorau Cymuned a Thref. O'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd, derbyniwyd un ymateb ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac un arall gan y naw awdurdod yng Ngrŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG). Gyda'i gilydd, roedd yr ymatebion gan ACLlau ac asiantaethau'r llywodraeth a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn cynrychioli 78% o'r holl ymatebion a gafwyd. Rhoddodd gweddill yr ymatebion amrediad eang o safbwyntiau gan gyrff proffesiynol a busnesau, a grwpiau ac unigolion eraill.

3.2 Mae crynodeb o'r ymatebwyr fesul math isod yn Nhabl 1, gyda rhestr lawn yn Atodiad 1.

**Tabl 1: Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad Rheoliadau CDSau yn ôl Math**

| **Math o Ymatebwr** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran** |
|---|---|---|
| Busnesau | **4** | **10%** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **17** | **43%** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **14** | **35%** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **3** | **7%** |
| Y Sector Gwirfoddol | **0** | **0%** |
| Eraill | **2** | **5%** |
| **Cyfanswm** | **40** | **100%** |

## 4. Crynodeb o'r Ymatebion fesul Cwestiwn

4.1 Mae dadansoddiad cryno o ganfyddiadau allweddol pob cwestiwn yr ymgynghoriad isod, wedi'i ddilyn gan ymateb Llywodraeth Cymru. Roedd rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, gan eu bod yn ymwneud â llywodraethu a gweithredu CCau. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn fanwl mewn crynodeb ar wahân o'r adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau ar Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Lle bo modd, mae'r holl ymatebion eraill wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae hyn wedi helpu i lywio a llunio fersiwn derfynol o Reoliadau CDSau, a bydd yn dylanwadu ar gynnwys canllawiau yn y dyfodol lle y bo hynny'n briodol. Bydd canllawiau a baratoir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn destun ymgynghori a thrafod â'r cyhoedd, i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol a phartïon eraill â diddordeb yn cael cyfle i wneud sylwadau cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Strategol adlewyrchu'n fras y camau allweddol a'r gofynion o ran paratoi cynlluniau a nodwyd yn Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol, yn ddarostyngedig i'r eithriadau y cyfeirir atynt?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Math o Ymatebwr | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **3** | **-** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **6** | **7** | **4** |
| Asiantaethau’r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **6** | **1** | **6** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **2** | **-** | **-** |
| Eraill | **1** | **-** | **1** |
| **Cyfanswm** | **18** | **8** | **11** |
| **Canran** | **48%** | **22%** | **30%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.2 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (48%) yn cytuno y dylai Rheoliadau CDSau adlewyrchu'n fras y camau allweddol a’r gofynion ar gyfer paratoi cynllun a amlinellir yn Rheoliadau CDLlau. Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r dull gan fod awdurdodau cynllunio, rhanddeiliaid a chymunedau eisoes yn gyfarwydd â phroses Cynlluniau Datblygu Lleol, a thrwy adlewyrchu'r dull hwn ar gyfer paratoi CDSau, byddai'n sicrhau lefel glir o gysondeb wrth baratoi'r ddau math o gynllun.

4.3 Un maes allweddol a oedd yn peri pryder, yn enwedig i Awdurdodau Cynllunio Lleol, oedd yr amserlen pedair blynedd ar gyfer paratoi a mabwysiadu CDS. Ystyrid bod yr amserlen hon yn rhy fyr ac afrealistig am lawer o resymau, gan gynnwys:

- Anawsterau wrth sicrhau consensws gwleidyddol ar draws ardaloedd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol;
- Yr oedi os oes angen i faterion gael eu hadrodd yn ôl er mwyn i’r gwahanol gynghorau gytuno arnynt;
- Cymhlethdod sefydlu strwythurau llywodraethu newydd;
- Yr amser sydd ei angen i egluro'r cynllun a thrafod â'r cyhoedd a chymunedau lleol ar draws ardal ddaearyddol eang,
- Maint y sail dystiolaeth sydd ei hangen, yn enwedig ar gyfer dyraniadau strategol, a'r nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.4 Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld y gefnogaeth helaeth o blaid adlewyrchu camau allweddol paratoi CDLlau ar gyfer CDSau.  Ar y sail hon, ni chynigir unrhyw newidiadau sylweddol i'n safbwynt polisi ar gwmpas, ffurf a chynnwys Rheoliadau CDSau.

4.5 Nodir y pryderon ynghylch yr amserlen pedair blynedd ar gyfer paratoi cynllun. Fodd bynnag, ni osodir amserlen ar CCau ar gyfer paratoi cynlluniau drwy ddeddfwriaeth, a bydd hyn yn ei adlewyrchu yn y canllawiau, fel y mae ar hyn o bryd ar gyfer CDLlau. Er bod Llywodraeth Cymru yn glynu wrth ei safbwynt y gellir paratoi CDS, o safbwynt gweithdrefnol, mewn pedair blynedd, rydym yn cydnabod y gallai'r CDSau cyntaf gymryd mwy o amser i'w paratoi na'r disgwyl. Bydd CDSau yn fath newydd o gynllun datblygu ar gyfer Cymru, wedi'i baratoi o dan drefniadau llywodraethu newydd drwy CCau, ac fel y nodwyd yn yr ymatebion, bydd llawer o faterion cymhleth i'w hystyried a chytuno arnynt cyn ac yn ystod y broses o baratoi cynlluniau.

4.6 Nodir y bydd angen consensws gwleidyddol i baratoi CDSau. Fodd bynnag, roedd ACLlau yn ysgogydd allweddol wrth gyflwyno CDSau drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio egwyddor CDSau; maent yn ychwanegu eglurder ynghylch materion gweithdrefnol. Nodir hefyd bod ACLlau yn gwneud cryn gydweithio a chasglu tystiolaeth ar draws amrediad eang o bynciau. Mae cyflwyno Bargeinion Twf ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru wedi hwyluso'r sylfeini ar gyfer cydweithredu gwleidyddol, i helpu i gyflawni CDSau drwy lywodraethu gan CCau.

4.7 Bydd y Llywodraeth yn gweithio mewn modd cadarnhaol a rhagweithiol gyda phob CC i ddarparu arweiniad, cefnogaeth a chymorth i helpu i gyflwyno CDSau.  Byddwn yn mabwysiadu dull pragmatig ynglŷn â’r Cytundebau Cyflawni cyntaf a gyflwynir, ar yr amod eu bod yn synhwyrol, yn realistig, ac yn adlewyrchu materion a heriau ardal yr CDS.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni?**

**Trosolwg Ystadegol**

| **Math o Ymatebwr** | | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim Ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| Busnesau | | **3** | **-** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | | **4** | **8** | **4** |
| Asiantaethau’r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | | **8** | **1** | **6** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | | **1** | **-** | **-** |
| Eraill | | **1** | **-** | **1** |
| **Cyfanswm** | | **17** | **9** | **11** |
| **Canran** | | **46%** | **24%** | **30%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad Cryno**

4.8 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (46%) yn cytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni. Roedd llawer o'r ymatebion ar draws pob sector o blaid ymgysylltu cynnar, effeithiol ac ystyrlon i helpu i sicrhau consensws yn gynnar ym mhroses CDSau.

4.9 Un maes allweddol sy'n peri pryder, yn enwedig i ACLlau, yw sut i ymgysylltu â chymunedau ar draws ardal ddaearyddol fawr a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, ac wrth ymgysylltu â grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Er mwyn cyflawni'r un lefel o ymgynghori ag ar gyfer CDLl ond ar raddfa fwy ar gyfer CDS, bydd hyn yn gofyn am gryn adnoddau, ymrwymiad a chefnogaeth wleidyddol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu hyd y cyfnodau ymgynghori ac estyn yr amser pedair blynedd ar gyfer paratoi cynlluniau.

4.10 Roedd rhai awdurdodau o'r farn bod y gofyniad i adlewyrchu Rheoliadau CDLlau, a nodi y dylai copïau caled o ddogfennau CDSau fod ar gael mewn swyddfeydd prif gynghorau, yn anodd yng ngoleuni pandemig presennol y coronafeirws a'r newid i adnoddau digidol. Fodd bynnag, croesawodd llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus y gofyniad hwn, i sicrhau bod unrhyw un sydd wedi'i allgáu yn ddigidol, naill ai oherwydd diffyg technoleg neu gyflymder band eang annigonol, yn dal i allu cymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Er mwyn cryfhau ymgysylltu a chyfranogi cymunedol, cynigiwyd bod Rheoliadau CDSau yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth berthnasol gael ei chyhoeddi mewn papurau newydd, cylchlythyrau ac ar wefannau awdurdodau lleol a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gyda'r holl wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, roedd pryderon ynghylch 'blinder ymgynghori' a dryswch posibl ynghylch swyddogaeth a chynnwys pob cynllun datblygu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.11 Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld y gefnogaeth helaeth o blaid cadw'r dull presennol ar gyfer Cytundeb Cyflawni gorfodol (gan ymgorffori Cynllun Cynnwys Cymunedau). Mae'r Cytundeb Cyflawni yn rhan sylfaenol o baratoi cynlluniau'n effeithiol ac mae'n nodi sut a phryd y bydd cymunedau'n cymryd rhan yn y broses.

4.12 Nodwn fod rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau ar draws ardal ddaearyddol fawr, a'r goblygiadau o ran adnoddau a allai fod yn gysylltiedig â gwneud hynny. Cyfrifoldeb pob CC fydd penderfynu sut a phryd y mae cymunedau'n cael eu cynnwys ym mhroses CDS, a phennir hyn o fewn paramedrau'r fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan Reoliadau CDSau, yn ogystal â gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau staff ac ariannol. Ystyrir bod gan CCau wybodaeth arbenigol am eu rhanbarth, ac mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i baratoi proses ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned sy'n nodi dulliau priodol o ymgysylltu sydd fwyaf addas ar gyfer yr ardal a'r cymunedau ynddi.

4.13 Nodwn fod barn ymatebwyr wedi'i rhannu ynghylch a ddylai'r broses ar gyfer CDSau fod yn gwbl electronig neu a ddylai fod yn ofynnol darparu copïau caled o ddogfennau allweddol o hyd mewn prif swyddfeydd. Y dull arfaethedig ar gyfer Rheoliadau CDSau yw gwneud y defnydd gorau posibl o gyfathrebu electronig, lle mae'n briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, mae maint a dylanwad CDSau yn sylweddol, a bydd eu polisïau a'u cynigion

yn effeithio ar amrediad eang o bobl. Mae'n bwysig felly bod cymunedau'n gallu cael gafael ar gopïau caled o'r cynllun, ac weithiau dogfennau mawr a thechnegol iawn, fel y gallant ddeall y cynllun a'i sail dystiolaeth yn well er mwyn cymryd rhan fwy effeithiol yn y broses a gwneud sylwadau mwy gwybodus. Fel yr nodwyd yn rhai o'r ymatebion, ni fydd pob aelod o'r gymuned yn gyfrifiadurol lythrennog nac yn gallu cael gafael ar ddyfeisiau electronig, a gall cysylltiadau band eang araf wneud hyn yn waeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig felly nad yw cymunedau yn yr ardaloedd hyn o dan anfantais am ei bod yn anodd lawrlwytho a chael gafael ar wybodaeth electronig. O ystyried hyn i gyd, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r dull arfaethedig, sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o gyfathrebu electronig lle y bo modd, ond bydd yn cynnwys darpariaeth y dylai copïau caled o ddogfennau allweddol fod ar gael ym mhrif swyddfeydd y CC a'r ACLlau yn ardal pob CC.

4.14 Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y gallai'r dull ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned fod yn ddryslyd, oherwydd y gwahanol haenau o gynlluniau datblygu yng Nghymru, a gwnaethant godi bryderon ynglŷn â'r potensial ar gyfer 'blinder ymgynghori'. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylwadau hyn ac yn cytuno bod angen canllawiau newydd wedi'u diweddaru i egluro rôl y CCau a gofynion proses CDSau i bawb sydd â diddordeb a chymunedau lleol, wrth ei gwneud yn glir sut a phryd i gymryd rhan effeithiol yn y gwahanol haenau o gynlluniau datblygu.

4.15 Bydd y canllawiau hyn ar ffurf dwy ddogfen ar wahân. Y cyntaf fydd canllawiau ychwanegol yn bennaf ar gyfer ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â pharatoi CDS a elwir yn 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Strategol'. Bydd y Llawlyfr hwn yn destun ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoeddi, gyda CCau ac ACLlau a rhanddeiliaid allweddol, cyn iddo gael ei gyhoeddi. Bydd yr ail, Canllaw Cymunedol diwygiedig ar Gynlluniau Datblygu neu 'y Canllaw Cymunedol' yn nodi hierarchaeth cynlluniau datblygu, y prosesau paratoi, amserlenni a dulliau ymgysylltu ar gyfer cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid lleol. Disgwylir i'r gwaith ar y ddwy ddogfen ganllaw ddechrau ddiwedd gwanwyn 2021.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol a restrir yn Atodiad 1?**

**Trosolwg Ystadegol**

| **Math o Ymatebwr** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim Ymateb** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **1** | **2** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **7** | **5** | **4** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **3** | **6** | **5** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **1** | **1** | **-** |
| Eraill | **-** | **1** | **1** |
| **Cyfanswm** | **12** | **15** | **10** |

| Canran | 32% | 41% | 27% |
|---|---|---|---|

**Dadansoddiad Cryno**

4.16 Mae ychydig dros 40% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol fel y'u nodir yn Atodiad 1 y ddogfen ymgynghori. Awgrymodd llawer o ymatebwyr fod y rhestr yn rhy fyr ac nad oedd yn cymharu â'r nifer uchel o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â phroses CDLlau. O'r herwydd, dylid ehangu'r rhestr i gynnwys rhai o'r sefydliadau, cyrff a grwpiau canlynol:

- Yr Awdurdod Glo
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Yr Arolygiaeth Gynllunio
- Awdurdodau priffyrdd
- Cyrff treftadaeth a grwpiau amgylcheddol
- Darparwyr gwasanaethau telathrebu a nwy
- Addysg uwch
- Y Gwasanaethau brys
- Cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Cynrychiolwyr y diwydiant datblygu
- Aelodau'r Senedd, Cynghorwyr Sir a Chynghorau Dinas a Thref

4.17 Er bod llawer o ymatebwyr am i Reoliadau CDSau ehangu'r rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai mater i bob CC yw penderfynu ar y rhain yn seiliedig ar ardal ei gynllun. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chynghorau Cymuned sydd y tu allan i ardal yr CDS ond sy'n ffinio arni, ac y gallai hyn arwain at ymgynghori â Chynghorau Cymuned ar fwy nag un CDS, gan wneud y broses yn fwy dryslyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.18 Mae llawer o'r awgrymiadau a gyflwynwyd ar y cyrff ymgynghori penodol i'w cynnwys eisoes wedi cael eu cynnwys yn y diffiniadau ehangach yn Atodiad 1 i'r ddogfen ymgynghori. Er enghraifft, mae Cynghorau Cymuned wedi'u cynnwys gyda Chynghorau Tref ac mae Gweinidogion Cymru wedi'u cynnwys yng nghyrff ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru ym mhob portffolio Gweinidogol penodol, megis treftadaeth a thrafnidiaeth.

4.19 O ran y cyrff ymgynghori cyffredinol, ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru restru'r holl gyrff hyn yn benodol mewn deddfwriaeth. Byddai gwneud hynny yn arwain at anhyblygrwydd, gan na fyddai pob corff ymgynghori yn berthnasol i ardal pob CC, neu fod â diddordeb ynddi. Cytunwn â'r ymatebwyr sy'n cydnabod bod yr CCau yn arbenigwyr yn ardal eu cynllun ac yn y sefyllfa orau i nodi'r cyrff perthnasol sydd â diddordeb yn yr ardal. Ar gyfer y broses o nodi cyrff ymgynghori cyffredinol gellir defnyddio'r rhestrau ymgynghori helaeth a fydd wedi'u paratoi gan bob ACLl priodol ar gyfer ei Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

4.20 O ran Cynghorau Cymuned sydd y tu allan i ardal CDS ond yn ffinio arni, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig hysbysu'r cyrff hyn am y cynllun sy'n cael ei ddatblygu, fel y gallant gymryd rhan effeithiol yn y broses o baratoi'r cynllun, ac ymateb i

unrhyw broblemau arwyddocaol. Byddai'n groes i egwyddorion ymgysylltu priodol ac ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i allgáu grwpiau o'r fath o'r broses o lunio'r cynllun.

4.21 I grynhoi, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid ei dull polisi o ymdrin ag ymgyngoreion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellid ymhelaethu ar y materion a godwyd a'u gwneud yn gliriach drwy ganllawiau. Bydd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys rhestr eang o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r dull paratoi ac ymgynghori dau gam a gynigiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Math o Ymatebwr | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **3** | **-** | **-** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **11** | **1** | **4** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **5** | **2** | **6** |
| Eraill | **2** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm** | **1** | **-** | **1** |
| **Canran** | **23** | **3** | **11** |
| Busnesau | **62%** | **8%** | **30%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.22 Roedd dros hanner yr ymatebwyr (62%) yn cytuno â'r dull paratoi ac ymgynghori dau gam yn y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo, gan adlewyrchu'n fras y broses bresennol ar gyfer CDLlau.

4.23 Mae rhai awdurdodau'n croesawu'r gofyniad yn Rheoliadau CDSau i wneud galwad am leoliadau a safleoedd 'strategol' yn ystod y cam Safleoedd Ymgeisiol, gan y bydd hyn yn helpu i wahaniaethu rhwng y safleoedd sy'n bodloni'r gofynion o ran maint ar gyfer CDS, a'r safleoedd llai a mwy lleol mewn Cynllun Datblygu Lleol byr. Fodd bynnag, gofynnodd nifer fawr o ymatebwyr i ragor o fanylion gael eu cynnwys yn y canllawiau ynghylch y diffiniad o'r term 'strategol', gan y gall hyn olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Dim ond nifer fach o ymatebwyr oedd am i bob CC ddiffinio 'strategol' ar sail materion a gwybodaeth leol, gyda rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd angen safleoedd strategol o gwbl.

4.24 Roedd ansicrwydd mewn rhai ymatebion gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ynghylch pwy gaiff ymateb i'r alwad am Safleoedd Ymgeisiol gan, yn ôl pob golwg, mai datblygwyr cenedlaethol yn hytrach na thirfeddianwyr lleol a hyrwyddwyr safleoedd a oedd

yn manteisio ar y cyfle hwn, i raddau helaeth. Gyda'r diwydiant datblygu'n cyflwyno arwynebeddau mawr o dir i'w datblygu, roedd pryderon gan unigolion a grwpiau lleol â ddiddordeb na fyddai gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd yn cael eu hadeiladu i ategu datblygiadau, gan golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a chydag dim llawer o bwyslais yn y rheoliadau ar greu lleoedd. Gyda hyn mewn golwg, dylai'r cyfle i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ychwanegol gael ei gyfyngu ar ôl i'r alwad ffurfiol ddod i ben.

4.25 Mae Rheoliadau CDSau yn cynnig y dylai'r Adroddiadau Ymgynghori yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir a'r cam Adneuo nodi'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriadau, gan gynnwys unrhyw bryderon gan y cyhoedd a grwpiau lleol â diddordeb, ac ymateb iddynt. Mae un corff proffesiynol wedi cynnig y dylai'r Adroddiadau Ymgynghori fynd gam ymhellach a chynnwys dadansoddiad o'r dulliau ymgynghori, gan gynnwys unrhyw addasiadau wrth symud ymlaen er mwyn cynnwys rhagor o bobl ym mhroses y cynllun.

4.26 Ar ôl yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol, cynigiodd llawer o ymatebwyr, yn enwedig awdurdodau cynllunio lleol, broses archwilio dau gam newydd. Awgrymodd ymatebwyr y dylid archwilio'r Strategaeth a Ffefrir gyntaf er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r profion cyffredinol am gadernid, cyn symud ymlaen ac archwilio'r Cynllun Adneuo. Ystyrid y byddai'r broses hon yn osgoi blynyddoedd o waith ofer pe canfyddid nad oedd y strategaeth yn gadarn, ac yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr yn gynnar yn y broses a hefyd yn sicrhau cynnydd cyflym wrth baratoi CDLl byr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.27 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion sy'n gofyn am eglurhad ynghylch y diffiniad o'r term 'strategol', yn ogystal â'r pryderon am y broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol a chynnwys yr Adroddiadau Ymgynghori. Credwn y gall y materion hyn gael eu hadlewyrchu'n briodol yng nghanllawiau CDSau sydd ar y gweill, ac nid oes angen newid y dull polisi ar gyfer y rheoliadau. Mae cynnwys y materion hyn yn y canllawiau'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i CCau a CDSau ymateb i amgylchiadau daearyddol unigryw, yn hytrach na cheisio cyflwyno dull sy'n addas ar gyfer pob sefyllfa drwy reoliadau.

4.28 Mewn ymateb i'r sylwadau sy'n gofyn am broses archwilio dau gam newydd, byddai newid o'r fath y tu allan i gwmpas Rheoliadau CDSau. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer un cynllun, un sail dystiolaeth ac un broses archwilio. Nid yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn darparu ar gyfer cyflwyno cynllun yn gynharach. Rhaid i Reoliadau CDSau gael eu paratoi o fewn paramedrau deddfwriaeth sylfaenol. Fel rhan o broses CDSau, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau ffurfiol yn ystod y camau ymgynghori statudol, sy'n cynnwys cam y Strategaeth a Ffefrir a'r cam Adneuo. Bydd y sylwadau hynny'n cynnwys sylwadau mewn perthynas â chadernid y cynllun a'r ffordd mae'r CDS yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol a Chymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 (cydymffurfiaeth gyffredinol). Bydd y sylwadau hyn yn rhoi adborth cynnar i CCau, gan dynnu sylw at unrhyw broblemau arwyddocaol o ran cadernid a lleihau'r risg o waith ofer. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda phob CC i roi cyngor a chymorth i helpu gyda'r gwaith o baratoi CDSau.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno ag elfennau penodol y gweithdrefnau a'r gofynion a gynigiwyd ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol, gan gynnwys cynigion o'r cam cyn adneuo a'r cam adneuo?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Math o Ymatebwr | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **3** | **-** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **5** | **4** | **7** |
| Asiantaethau’r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **2** | **4** | **8** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **2** | **-** | **-** |
| Eraill | **-** | **1** | **1** |
| **Cyfanswm** | **12** | **9** | **16** |
| **Canran** | **33%** | **24%** | **43%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.29 Nid atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (43%) y cwestiwn hwn. Gall hyn fod o ganlyniad i'r cwestiwn gael ei grwpio gyda Chwestiwn 4 yn y ddogfen ymgynghori.

4.30 Ar gyfer y cwestiwn hwn, parhaodd yr ymatebion ynglŷn â'r alwad am Safleoedd Ymgeisiol, yr oedd rhai awdurdodau o'r farn y dylid ei gwneud ochr yn ochr â'r cam Strategaeth a Ffefrir, nid o’i flaen. Ystyrid bod y dull hwn yn rhoi rhagor o sicrwydd i ddatblygwyr ynghylch math, maint a lleoliad y safleoedd sydd eu hangen, ac y byddai'n lleihau llwyth gwaith awdurdodau drwy atal yr angen i asesu safleoedd y mae’n amlwg neu’n debyg iawn na fyddant yn addas, am eu bod y tu allan i gwmpas y Strategaeth a Ffefrir.

4.31 Gan ystyried natur strategol CDS, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai fod rhagor o gyfleoedd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn y Rheoliadau, drwy ymestyn y cyfnodau ymgynghori statudol y tu hwnt i chwe wythnos a rhoi rhagor o eglurder ynghylch ymgynghori ar Newidiadau â Ffocws.

4.32 Byddai llawer o awdurdodau'n croesawu gweld rhagor o eglurhad ynglŷn â’r polisïau i'w cynnwys yn y cynllun yng nghanllawiau CDSau sydd ar y gweill. Er enghraifft, a all polisïau yn y Strategaeth a Ffefrir ddod yn fwy manwl yn ystod y cam Adneuo ac a fydd polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn briodol?

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.33 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cynnal yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir, gan ei bod yn hanfodol nad yw cynnwys y Strategaeth a Ffefrir wedi'i bennu ymlaen llaw. Dylai pawb sydd â diddordeb gael cyfle i hyrwyddo safleoedd i lywio'r Strategaeth a Ffefrir. Drwy gynnal yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol cyn

yr ymgynghoriad, gall cymunedau a phartïon eraill â diddordeb fynegi eu barn ar y safleoedd a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Strategaeth a Ffefrir. Bydd hyn yn gwneud yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn fwy ystyrlon ac yn helpu i 'flaenlwytho' y broses.

4.34 Ystyrir bod y cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos yn isafswm priodol ar gyfer ymgynghori yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir a'r cam Adneuo, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r dull hwn ar gyfer CDSau. Gall pob CC, os yw'n dewis gwneud hynny, ymestyn y cyfnodau ymgynghori, ond bydd angen egluro hyn yn llawn yn y Cytundeb Cyflawni.

4.35 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion sy'n gofyn am eglurhad ynghylch yr ymgynghoriad ar Newidiadau â Ffocws a'r math o bolisïau sydd i'w cynnwys mewn CDS. Nid yw Newidiadau â Ffocws yn gam statudol ffurfiol wrth baratoi cynllun, ar gyfer CDSau nac CDLlau. Felly, ni all y rheoliadau gyfeirio atynt. Nid yw deddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at bolisïau, mae'r rhain yn cael eu hamlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r canllawiau. Felly, credwn fod y materion hyn yn derbyn sylw mwy priodol nghanllawiau CDSau sydd yn yr arfaeth.

**Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer cyflwyno, archwilio a mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| **Math o Ymatebwr** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim Ymateb** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **3** | **-** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **9** | **2** | **5** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **6** | **3** | **5** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **1** | **-** | **1** |
| Eraill | **-** | **1** | **1** |
| **Cyfanswm** | **19** | **6** | **12** |
| **Canran** | **51%** | **16%** | **33%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.36 Roedd dros hanner yr ymatebwyr (51%) yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer cyflwyno, archwilio a mabwysiadu CDS, gan ei fod yn adlewyrchu'r broses bresennol ar gyfer CDLlau yn fras.

4.37 Gyda lefel uchel o gytundeb a 33 % heb ateb y cwestiwn hwn, mae nifer y materion a godwyd yn isel. Fodd bynnag, tynnodd nifer cyfyngedig o ymatebwyr sylw at y geiriad yn y rheoliadau sy'n nodi y 'caiff' CCau fabwysiadu CDS, sy'n wahanol i'r Reoliadau CDLlau lle mae'n 'rhaid' i awdurdodau fabwysiadu'r cynllun. Os bydd CC yn dewis peidio â mabwysiadu'r cynllun neu os yw awdurdod cyfansoddol yn anghytuno ar agwedd benodol, yna nid oedd y rheoliadau yn glir ynghylch goblygiadau'r mater hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.38 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer cyfyngedig o ymatebion wedi tynnu sylw at wahaniaeth yn y geiriad rhwng Rheoliadau CDLlau a'r dull polisi ar gyfer Rheoliadau CDSau. Mae defnyddio'r gair 'caiff' yn sicrhau bod Rheoliadau CDSau yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (PCPA) 2004, sy'n adlewyrchu bod y penderfyniad i fabwysiadu CDS yn gofyn am bleidlais ddemocrataidd gan bob CC. Mae'r broses benderfynu yn adlewyrchu'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer CDLlau, lle mae pob awdurdod yn cynnal pleidlais ddemocrataidd ynghylch mabwysiadu'r cynllun.

4.39 Byddai'n rhyfedd iawn i CC ddewis peidio â mabwysiadu ei CDS ei hun, yn enwedig pe bai'r CC yn ystyried y cynllun yn 'gadarn' i'w gyflwyno a'i archwilio ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn ei baratoi. Byddai methu mabwysiadu CDS 'cadarn' nid yn unig yn cael ei ystyried yn wastraff arian cyhoeddus, amser ac adnoddau, ond byddai hefyd yn rhoi'r CC mewn sefyllfa wannach o lawer i lywio a llunio dyheadau cenedlaethol a rhanbarthol fel y maent yn cael eu hamlinellu yng Nghymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 a pholisïau cynllunio cenedlaethol. Hefyd, bydd absenoldeb fframwaith polisi y gallai CDLl weithredu o dano yn golygu na ellir paratoi CDLlau os nad yw CDS wedi cael ei fabwysiadu a'i roi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r ymatebwyr y byddai'r senario hwn yn rhoi ardal y cynllun mewn perygl o geisiadau hapfasnachol gyda chanlyniadau gwaeth i gymunedau. Mae hon yn senario y mae Llywodraeth Cymru am ei osgoi.

4.40 Os bydd CC yn dewis peidio â mabwysiadu ei CDS ar ôl derbyn Adroddiad Arolygydd cadarnhaol, yna bydd darpariaethau yn Rheoliadau CDSau, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, mewn perthynas â gweithredu a chymhwyso pwerau Gweinidogion Cymru yn y broses.

**Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Math o Ymatebwr | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **2** | **1** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **8** | **4** | **4** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **4** | **3** | **6** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **2** | **-** | **-** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eraill | **1** | **-** | **1** |
| **Cyfanswm** | **18** | **8** | **11** |
| **Canran** | **48%** | **22%** | **30%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.41 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (48%) yn cytuno â'r dull arfaethedig o fonitro, adolygu a diwygio CDS, gan ei fod yn adlewyrchu'r broses ar gyfer CDLlau yn fras.

4.42 Gofynnodd nifer fach o ymatebion gan ACLlau a fyddai Rheoliadau CDSau neu'r canllawiau sydd ar y gweill yn cynnwys dangosyddion monitro gorfodol? Os byddent, tynnodd ymatebion sylw at y ffaith bod monitro CDS yn wahanol iawn i fonitro CDLl, lle canolbwyntir ar ganlyniadau strategol yn hytrach na pholisïau unigol.

4.43 Tynnodd rhai atebion sylw at y ffaith bod monitro CDS ar ôl ei fabwysiadu yn defnyddio llawer o adnoddau. Cododd hyn bryderon ynghylch a oedd yr amserlen o chwe mis rhwng sbarduno adolygiad o'r cynllun a pharatoi'r Adroddiad Adolygu yn ddigon o amser i ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth ac ystyried y problemau a'r opsiynau? Wrth edrych tua'r dyfodol, awgrymodd un awdurdod y gallai adolygiad rhannol o CDS fod yn briodol, er enghraifft, pe bai diffyg neu oedi wrth datblygu dyraniad penodol nad oedd yn tanseilio strategaeth y cynllun.

4.44 Roedd nifer o ymatebion gan ACLlau yn ystyried bod y cyfnod adolygu statudol o phedair blynedd yn rhy fyr. Roedd pryder nad oedd yr amserlen hon yn ddigonol i ganiatáu i ddyraniadau strategol gael eu datblygu. Byddai'r gwaith ychwanegol o baratoi CDLl yn rhoi gormod o bwyslais ar ysgrifennu cynlluniau, heb fawr o amser i'r cynlluniau gael effaith. Er bod nifer fach o ymatebion gan grwpiau sector cyhoeddus a grwpiau eraill â diddordeb o blaid cyfnod adolygu o bedair blynedd, roedd y mwyafrif llethol yn cytuno y dylid ymestyn y cyfnod hwn i chwe neu wyth mlynedd yn y rheoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.45 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion sy'n gofyn am eglurhad ynghylch y dangosyddion ar gyfer monitro CDSau. Byddai nodi nifer penodol o ddangosyddion mewn is-ddeddfwriaeth yn arwain at sefyllfa anhyblyg iawn ac o bosibl yn rhwymo CCau i fonitro polisïau sy'n bodoli eisoes nes i'r rheoliadau gael eu diwygio. Credwn ei bod yn fwy priodol ymdrin â'r mater hwn yng nghanllawiau CDSau sydd ar y gweill, gan y bydd hwn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd ac na fydd angen newid y dull polisi ar gyfer y rheoliadau.

4.46 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfnod o chwe mis ar gyfer paratoi Adroddiad Adolygu yn ddigon o amser i ddwyn ynghyd Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol â dadansoddiad cryno o ddata blaenorol mewn perthynas â chanlyniadau polisi; am fod yr holl ddata eisoes wedi'u coladu a'u cofnodi. Ni ddylai Adroddiad Adolygu fod yn dasg feichus. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i CCau barhau i adolygu'r materion a allai effeithio ar ddatblygu tir yn ardal y CDS. Nod unrhyw gasgliadau y deuir atynt yno yw nodi a oes angen diwygio'r cynllun yn y lle cyntaf, neu a oes angen diwygio'r holl gynllun neu ran ohono. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r gofyniad hwn. Am y rhesymau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth

Cymru yn anghytuno bod y fersiwn fer o'r weithdrefn ar gyfer adolygu CDS yn briodol. Oherwydd natur strategol, maint a dylanwad eang y cynllun, credwn nad yw'n briodol ei ddiwygio'n gyflym heb ystyried y goblygiadau ehangach drwy'r weithdrefn ddiwygio. Fel y nodwyd mewn rhai ymatebion, os yw dyraniad strategol yn tanberfformio, yna gallai hyn arwain at oblygiadau ehangach ar gyfer polisïau eraill yn y cynllun a'i strategaeth. Mae'n bosibl bod llawer o bolisïau yn y cynllun yn perfformio'n dda ac nad oes angen eu diwygio. Dim ond drwy edrych ar bopeth yn ei gyfanrwydd fel rhan o'r weithdrefn adolygu lawn, i benderfynu pa elfennau o'r CDS y mae angen eu diwygio a pha elfennau nad oes angen eu diwygio, y gellir nodi'r goblygiadau.

4.47 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhan helaeth o'r ymatebion yn cytuno bod y cyfnod adolygu o bedair blynedd yn rhy fyr ac y dylid ei ymestyn i o leiaf chwe blynedd yn Rheoliadau CDSau. Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn tueddi i gytuno bod cyfnod adolygu o chwe blynedd yn briodol. Bydd hyn yn caniatáu amser ychwanegol i bolisïau a safleoedd mewn CDS gael eu paratoi a bydd yn helpu awdurdodau i ddarparu adnoddau a pharatoi eu CDLlau haen is. Byddai hyn hefyd yn lleihau nifer yr Adroddiadau Adolygu a diwygiadau posibl i CDS.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer tynnu Cynlluniau Datblygu Strategol yn ôl?**

**Trosolwg Ystadegol**

| Math o Ymatebwr | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|
| Busnesau | **2** | **1** | **-** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | **9** | **3** | **4** |
| Asiantaethau'r Llywodraeth/Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill | **5** | **1** | **8** |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Ddiddordeb | **1** | **1** | **-** |
| Eraill | **-** | **1** | **1** |
| **Cyfanswm** | **17** | **7** | **13** |
| **Canran** | **46%** | **19%** | **35%** |

**Dadansoddiad Cryno**

4.48 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (46%) yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer tynnu CDS yn ôl, gan ei fod yn adlewyrchu'n fras y gofynion yn Rheoliadau CDLl.

4.49 Gyda lefel uchel o gytundeb a 35% o ymatebwyr heb ateb y cwestiwn hwn, mae nifer y materion a godwyd yn isel. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o awdurdodau a rhai cyrff proffesiynol yn croesawu rhagor o eglurder yn y canllawiau sydd ar y gweill sydd ynghylch

sail resymegol y cynllunio ar gyfer tynnu CDS yn ôl, ac effaith hyn ar baratoi CDLlau ac CDLlau byr, yn enwedig os nad oes gan yr CDS statws cyfreithiol nes iddo gael ei fabwysiadu. Roedd pryder, heb unrhyw CDS neu LDP byr wedi'i fabwysiadu ac CDLl wedi dod i ben, mai Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 yn unig fyddai'r cynllun datblygu diweddaraf ar gyfer yr ardal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.50 Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i CC eu bodloni os yw'n dewis tynnu ei gynllun ei hun yn ôl. Mae goblygiadau hyn yr un fath â'r rhai a esboniwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 6.

4.51 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn na ellir bod yn sicr y gellir mabwysiadu CDS, neu'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, nes i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n ffurfiol. Am y rheswm hwn, dim ond ar ôl i'r CDS gael ei fabwysiadu y gellir cychwyn CDLl byr yn 'ffurfiol', er nad oes unrhyw rwystrau i CC ddechrau astudiaethau technegol a gwaith arall ochr yn ochr â phroses CDSau.

4.52 Ystyrir y gallai dechrau CDLl byr yn 'ffurfiol' cyn i CDS gael ei fabwysiadu roi'r argraff i gymunedau a rhanddeiliaid bod y cynllun a'i gynnwys wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Mae'n debygol y bydd hyn o achosi dryswch rhwng y ddau gynllun – rhywbeth yr oedd llawer o ymatebwyr yn ceisio'i osgoi, ac yn erydu hyder yn y system cynlluniau datblygu – sy'n ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn destun proses archwilio a chraffu annibynnol, cyn y gellir barnu bod cynllun yn 'gadarn' a'i fabwysiadu.

4.53 Mae'r berthynas rhwng CDSau ac CDLlau byr eisoes yn cael ei hegluro'n gryno yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Pennod 10). Mae hwn yn nodi'r sefyllfa lle mae gwahanol fathau o gynllun yn cael eu mabwysiadau neu beidio â chael eu mabwysiadu, canlyniadau gwahanol senarios a'r berthynas rhwng gwahanol haenau o gynlluniau.

**Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, rhowch wybod amdanynt**

**Dadansoddiad Cryno ac Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.54 Gwnaed nifer o sylwadau ychwanegol ar y broses ar gyfer paratoi CDSau a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae crynodeb isod:

| Thema | Y Mater a godwyd | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Rheoliadau CDSau** | Dylai'r Rheoliadau:<br>• Egluro'r term 'cydymffurfiaeth gyffredinol'<br>• Rhestru'r Profion Cadernid<br>• Pennu cyfod y cynllun, a ddylai fod dros 15 mlynedd o ystyried natur strategol y cynllun. | Ymdrinnir â'r materion hyn yn fwy priodol yng nghanllawiau CDSau sydd ar y gweill. Mae'r ddau bwynt bwled cyntaf wedi'u cynnwys ym Mhennod 2 a 10 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu.<br><br>Bydd cyfnod CDSau yn cael ei bennu yn y canllawiau, nid y rheoliadau. Bydd y dull hwn yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | adlewyrchu Rheoliadau CDLlau a'r canllawiau ategol yn y Llawlyfr. |
| **Colli elfennau unigryw ardal** | Mae potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng materion a phroblemau yn y gwahanol haenau o gynlluniau datblygu. Mae hyn yn peryglu colli elfennau unigryw ardal gydag ymdeimlad bod penderfyniadau a wnaed gan yr CC wedi'u gorfodi ar awdurdodau. | Bydd y materion a'r problemau sydd i'w hystyried mewn CDS ac CDLl byr yn cael eu nodi'n glir yng nghanllawiau CDSau ac yn y Canllaw Cymunedol. Mae'r CCau wedi'u cyfansoddi o Arweinwyr Awdurdodau Lleol, sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd. Mater o lywodraethu yw hwn, a nodir yn Rheoliadau'r CCau. |
| **Parciau Cenedlaethol** | Mae’n bosibl y bydd CDS yn tanseilio ansawdd Parc Cenedlaethol, a gellir cyflawni diben CDS heb gynnwys y Parciau Cenedlaethol yn ardal y cynllun. Bydd hefyd yn ddryslyd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill os yw Parc Cenedlaethol yn ardal mwy nag un CDS. | Mae'r mater hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud â gweithdrefnau paratoi CDSau a ffurf a chynnwys y cynlluniau yn unig. Fodd bynnag, pan fydd cynllun datblygu'n cael ei baratoi, naill ai CDS neu CDLl, rhaid i'r cynllun perthnasol roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol, fel y nodir mewn deddfwriaeth berthnasol arall. |
| **Mandadu CCau** | Roedd nifer fach o ymatebwyr o’r farn bod CCau yn ddiangen ac annemocrataidd ac y na ddylid eu mandadu, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru | Mae'r mater hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud â gweithdrefnau paratoi CDSau a ffurf a chynnwys y cynlluniau yn unig. |
| **Gofynion Gweithredu CCau** | Mae’r rhain yn cynnwys cwestiynau am:<br>• Sut bydd swyddogaethau eraill a llwythi gwaith yn cyd-fynd â’r gwaith o baratoi CDSau?<br>• Maint, cwmpas a chylch gwaith y tîm sy’n cefnogi’r CDS<br>• Sut bydd y tîm hwn yn cael ei ariannu a’i staffio o ystyried y gwaith o baratoi CDLlau a’r cyni mae awdurdodau lleol yn ei wynebu? | Mae'r mater hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud â gweithdrefnau paratoi CDSau a ffurf a chynnwys y cynlluniau yn unig. |
| **Canllawiau CDSau** | Mewn canllawiau yn y dyfodol dylid egluro sut bydd tair haen system cynlluniau datblygu (CDS/CDLl/CDLl byr) yn gweithio ochr yn ochr, yn enwedig os nad oes statws | Nodwyd. Gellir ymdrin â'r materion hyn yn briodol yng nghanllawiau CDSau sydd ar y gweill, er bod y Llawlyfr Canllawiau Datblygu presennol yn egluro’r pwynt hwn (ym Mhenodau 2 a 10). |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfreithiol i CDS cyn iddo gael ei fabwysiadu. | |
| **Cynlluniau Datblygu Lleol Byr** | Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried bod yr amserlen o ddwy flynedd ar gyfer paratoi CDLl byr yn rhy fyr. Fodd bynnag, mae ymatebwyr eraill wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai unrhyw oedi wrth baratoi a mabwysiadu CDLl byr arwain at fylchau polisi lleol a chynnydd mewn ceisiadau hapfasnachol, yn enwedig os oes gan yr awdurdod CDLl byr sydd wedi dod i ben. | Nodwyd. Ymdrinnir â'r mater hwn yn Rheoliadau CDLlau yn y dyfodol a chanllawiau CDSau sydd ar y gweill. Nid yw'r amserlen ar gyfer paratoi CDS a CDLl wedi'i phennu mewn rheoliadau. |

## 5. Crynodeb o Diwygiadau

5.1 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod nifer helaeth o ymatebwyr o'r farn y dylai Rheoliadau CDSau adlewyrchu'r camau allweddol ar gyfer paratoi CDLl. Ar y sail hyn, nid oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i gwmpas, ffurf a chynnwys Rheoliadau CDSau. Fodd bynnag, mae un newid i'r Rheoliadau a bydd canllawiau newydd yn cael eu drafftio fel a ganlyn:

- Yn Rheoliadau CDSau ymestynnir cyfnod adolygu cynlluniau o bedair i chwe blynedd, a
- Chynhwysir rhestr helaeth o gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol yn y canllawiau ar CDSau;
- Rhoir eglurder mewn perthynas â gofynion paratoi, cynnwys CDSau a CDLlau byr mewn canllawiau ar CDSau yn y dyfodol, a
- Bydd y Canllaw Cymunedol yn cael ei ddiweddaru i sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol ganddynt, a sicrhau y gallant gymryd rhan effeithiol yn y cynllun cywir ar yr adeg gywir.

## 6. Y Camau Nesaf

6.1 Mae'r fersiwn derfynol o Reoliadau CDSau wedi cael ei llunio gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad hwn, a byddant yn dod i rym ar yr un pryd â'r rheoliadau sy'n rhoi cyfrifoldeb am gynllunio strategol i CCau. Fel y nodwyd eisoes, bydd gwaith hefyd yn dechrau ar baratoi Canllawiau CDSau newydd a diweddaru'r Canllaw Cymunedol ar Gynlluniau Datblygu y gwanwyn hwn.

## Atodiad 1 – Rhestr o Sefydliadau ac Unigolion a Gyflwynodd Sylwadau

### Busnesau

Dŵr Cymru
Redrow
Hughes Architects

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

Cyngor Casnewydd
Cyngor Caerffili
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Caerdydd
Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Ceredigion
Cyngor Ynys Môn
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Gwynedd
Cyngor Conwy
Cyngor Powys
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Wrecsam
Tri Awdurdod Parc Cenedlaethol

### Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill

Cyngor Cymuned Cwmbrân
Yr Awdurdod Glo
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyfoeth Naturiol Cymru
Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG)
Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW)
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Cyngor Cymuned Llanfair DC
Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
Cyngor Cymuned Pennard
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn

### Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb

Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cynllunio Cymru

**Eraill**

Grŵp Gogledd Gorllewin Caerdydd
Mr a Mrs Filce

Dienw
Dienw
Dienw